

## Cofnodion Cyfarfod Busnes y Comisiynwyr

Dydd Mercher yr 20<sup>fed</sup> o Ebrill 2016  
Yr Ystafell Gynadledda, Plas Crug, Aberystwyth

### Presennol

**Comisiynwyr:** Eurwyn Wiliam (Cadeirydd), Henry Owen-John (Is-Gadeirydd), Jonathan Hudson, Mark Redknap, Christopher Williams, Catherine Hardman, Thomas Lloyd, Caroline Crewe-Read

**Staff:** Christopher Catling (Ysgrifennydd), David Thomas, Gareth Edwards, Rhian Davies, Scott Lloyd, Reina van der Wiel

**Sylwedydd:** Andrew George (Cadw)

Rhif		Gweithredu	Gan bwy
	<p>Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi dewis sylwi ar y cyfarfod. Dywedodd wrth y rheiny a oedd wedi ymgynnull na fyddai sylwedyddion yn gallu cyfrannu at y trafodaethau. Nododd y byddai amser wedyn i sylwedyddion drafod unrhyw sylwadau a oedd ganddynt gyda'r Comisiynwyr.</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd Reina van der Wiel, y Cynorthwydd Gweithredol newydd, a Caroline Crewe-Read, y Comisiynydd newydd. Mynegodd gydymdeimlad â Mark Redknap yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar.</p>		
1.	<b>Ymddiheuriadau</b> Dim.		
2.	<b>Datgan Buddiannau</b> Dim.		
3.	<b>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</b> <b>Cytunwyd</b> bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.		
4.	<b>Materion yn Codi</b> Dim.		
5.	<b>Busnes y Cadeirydd</b>  a) <b>Recriwtio Comisiynwyr</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr gynnwys yr adroddiad ar Recriwtio Comisiynwyr.</li></ul>		



Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Cofnodion Cyfarfod Busnes y Comisiynwyr 20 Ebrill 2016

	<p>gwerthfawrogi eu gwaith yn y flwyddyn hon o newid. Bu'n gydymdrech wych wedi'i harwain gan Christopher Catling gyda chymorth y Tîm Gweithredol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Nododd</b> Andrew George fod Cadw yn llwyr gydnabod mai curaduro Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yw prif rôl y Comisiwn.</li> <li>• <b>Cytunodd</b> y Comisiynwyr y byddai angen (ar ôl yr Etholiad Cyffredinol) dechrau datblygu strategaeth bum-mlynedd i gyd-fynd â'r Rhaglen Llywodraethu newydd, mewn cydweithrediad â Cadw, i'w chyflwyno i'r Gweinidog newydd.</li> <li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr fod angen i bopeth a wnawn fod yn gyson â'n Gwarant Frenhinol.</li> </ul>	Cynllun strategol pum-mlynedd drafft	CPC
7.	<p><b>Cyllid</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr y ffigurau incwm a gwariant ar gyfer 2015-16. Roedd addasiad bach (llai na £100) a thanwariant terfynol o £11,761 (na chaniateir i ni ei gario drosodd). Nid oedd unrhyw doriadau o fewn y flwyddyn.</li> <li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr fod incwm tua £19k yn fwy na'r disgwyl.</li> <li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr fod yna gyllideb fantoledig ar gyfer 2016-17 ac y rhagamcenir y bydd incwm yn eithaf isel. Gan fod llawer o ansicrwydd (er enghraifft, ynghylch canlyniad ac effaith y safonau iaith Gymraeg, ceisio statws elusenol, a cheisiadau am gyllid allanol megis CHERISH), caiff y gyllideb ei hadolygu bob chwarter o leiaf.</li> <li>• <b>Diolchodd</b> y Comisiynwyr i Rhian Davies am ei gwaith caled yn mantoli'r gyllideb.</li> </ul>		
8.	<p><b>Cynllun Cyflawni: Prosiectau ar gyfer 2016-17</b></p> <p>Rhododd David Thomas (Gwasanaethau Cyhoeddus) a Gareth Edwards (Gwybodaeth a Dealltwriaeth) adroddiadau llafar ar y prosiectau yn eu hadrannau hwy ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p> <p><b>a) Gwasanaethau Cyhoeddus</b></p> <p><b>Nododd</b> y Comisiynwyr y blaenoriaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Safonau arweinyddiaeth: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Byddwn yn parhau i fod yn arweinwyr ym maes</li> </ul> </li> </ul>		

	<p>rheoli cofnodion, er enghraifft drwy Gymru Hanesyddol;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>○ Mae'r llythyr cylch gwaith yn gofyn am bapur ar strategaeth ddigidol;</li><li>○ Byddwn yn parhau i ddatblygu safonau data ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys terminoleg reoledig ddwyieithog drwy gyfieithu'r thesawrws.</li></ul> <ul style="list-style-type: none"><li>● Ar-lein:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Byddwn yn mynd yn fyw gyda Coflein ar ôl ei hailddatblygu, gan ddefnyddio technoleg 'ymatebol;</li><li>○ Byddwn yn datblygu gwefan newydd y Comisiwn Brenhinol, gan integreiddio ein blog a'n cyfryngau cymdeithasol.</li></ul></li><li>● Llyfrgell ac Ymholiadau:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Adleoli fydd ein prif flaenoriaeth yn y chwarter cyntaf, a chaiff ein gwasanaethau eu hail-lansio ym mis Gorffennaf 2016;</li><li>○ Bydd hyn hefyd yn golygu bod angen i ni addasu ein harferion gwaith;</li><li>○ Effaith y safonau iaith Gymraeg ar ein gwasanaethau.</li></ul></li><li>● Ymgysylltu â'r Cyhoedd:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Gydag ail-lansio ein gwasanaethau byddwn yn diweddarau ein deunyddiau hyrwyddo gan ymgorffori ein cyfeiriad newydd a dilyn y Canllaw Arddull newydd;</li><li>○ Rydym wedi cynllunio cyfres gref o ddigwyddiadau ar gyfer y flwyddyn gyfan;</li><li>○ Cyhoeddir y llyfr <i>Ucheldir Gwent</i> mewn pryd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.</li></ul></li><li>● David Thomas fydd yn rheoli'r broses hon, yn bennaf i sicrhau bod y gwahanol ffrydiau yn gweithio gyda'i gilydd yn ogystal â chyda chydweithwyr Gwybodaeth a Dealltwriaeth.</li></ul> <p><b>b) Gwybodaeth a Dealltwriaeth</b> <b>Nododd</b> y Comisiynwyr y blaenoriaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>● Arolygu ac Ymchwilio:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Gwaith wedi'i gyllido yw ein prif flaenoriaeth.</li></ul></li></ul>		
--	--	--	--

	<ul style="list-style-type: none"><li>○ Rydym ni'n disgwyl canlyniad y cais Interreg cam 1 CHERISH (Climate Heritage &amp; Environments of Reefs, Islands and Headlands). Y Comisiwn Brenhinol yw arweinydd y prosiect hwn, ac mae gennym bartneriaid yng Nghymru ac Iwerddon y gallwn ddysgu ganddynt. Mae WEFO wedi ymateb yn gadarnhaol hyd yma ac rydym yn gobeithio dechrau ym mis Hydref.</li><li>○ Rydym wedi llwyddo i gyrraedd cam cynllunio manwl prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar y rhyfel yn erbyn y llongau tanfor yn ystod y Rhyfel Mawr. Rydym hefyd wedi cyflwyno cynnig ategol gyda llynges Portiwgal. Ni fydd y prosiect yn arwain at waith i ni, ond byddwn yn elwa ar y gwaith arolygu a wneir.</li><li>○ Rydym ar hyn o bryd yn sefydlu hyd a lled prosiect ar Eglwysi Catholig yng Nghymru y gobeithir y bydd yn arwain at gofnodi eglwysi o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif sydd dan fygythiad mawr.</li><li>○ Bydd y porth ar-lein ar gyfer Meysydd Brwydr yn cael ei lansio yn yr hydref.</li><li>○ Bydd y llyfr <i>Ucheldir Gwent</i> yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.</li><li>○ Rydym ni'n cyfrannu at linyn treftadaeth y cais tirwedd rydym ni'n ei wneud i Gronfa Dreftadaeth y Loteri mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Defnyddir hwn i hybu'r gwaith a wnaed gennym eisoes ar yr uwchdiroedd.</li><li>○ Byddwn ni'n parhau i gyfrannu at brosiect Treftadaeth Nas Cerir Cadw. Mae'r prosiect hwn, sydd â'i ffocws ar bobl ifanc, wrthi'n cael ei ddatblygu, ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at fwy o waith yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</li><li>○ Mae lle i wneud gwaith cofnodi thematig arall, er enghraifft, adeiladau mewn perygl, parthau rhynglanw, a ffotograffiaeth o'r awyr (er mai nod peth o hyn fydd cefnogi'r prosiectau CHERISH a pharciau a gerddi).</li><li>● Yr Archif:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Parheir i gefnogi'r gwaith arolygu.</li><li>○ Ac mae yna waith datblygu hefyd.</li></ul></li></ul>		
--	--	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Mae'r adleoli'n dasg enfawr. Dim ond ar ôl i ni symud y byddwn ni'n gallu parhau â'r gwaith rhesymoli.</li> <li>○ Byddwn ni'n paratoi ar gyfer achredu'r archif yn weddol fuan ar ôl symud. Rydym wedi gwneud cryn gynnydd, ond mae rhywfaint o waith polisi a strategol eto i'w wneud.</li> <li>○ O ran gwaith digidol yr archif, mae gennym gynlluniau i gynyddu ein gallu ac i symud ymlaen i safonau rhyngwladol.</li> <li>○ Byddwn yn parhau i arwain ar safonau ar gyfer cynhyrchwyr data (roedd sesiwn hyfforddi diweddar wedi'i harwain gan Gareth Edwards a David Thomas yn llwyddiant mawr), a bydd hyn yn cyfrannu at waith is-strwythur gyda'r Alban.</li> <li>○ Mae'r gwaith o ailgartrefu a rhewi'r negatifau nitrad a negatifau asetad cynnar blaenoriaethol bron wedi'i gwblhau.</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>● <b>Nododd</b> y Comisiynwyr sut mae cyllid o'r tu allan yn lleihau problem swyddi 'unig berson' gan fod prynu staff dros dro i mewn yn helpu wrth gynllunio dilyniant.</li> <li>● <b>Nododd</b> y Comisiynwyr sut mae hyn yn cydweddu â'r gwaith a gyflwynwyd uchod a'n Fframwaith Ymchwil.</li> </ul>		
9.	<p><b>Goblygiadau Deddf Amgylchedd Hanesyddol Cymru o ran y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a'n rôl oruchwylio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● <b>Nododd</b> y Comisiynwyr gynnwys yr Adroddiad ar Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.</li> <li>● <b>Nododd</b> y Comisiynwyr fod lle yma ar gyfer un elfen o'r strategaeth Arweinyddiaeth Ddigidol.</li> </ul>		
10.	<p><b>Enwau lleoedd hanesyddol Cymru: syniadau cychwynnol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● <b>Trafododd</b> y Comisiynwyr gynnwys yr adroddiad ar enwau lleoedd hanesyddol, a <b>chytunodd</b> ar strategaeth fras.</li> <li>● <b>Nododd</b> y Comisiynwyr fod y defnydd o'r rhestr yn arbennig o bwysig, ac mai'r gwerth ychwanegol y gall y Comisiwn Brenhinol ei gynnig yw ei botensial i fapio. Pwysleisiodd David Thomas na fydd y rhestr yn</li> </ul>		

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Cofnodion Cyfarfod Busnes y Comisiynwyr 20 Ebrill 2016

	<p>nodi ffurfiau ffafriedig ar enwau lleoedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Llongyfarchwyd</b> Cadw gan y Comisiynwyr ar y Ddeddf, a olygai lawer o waith ac a fydd yn fuddiol iawn.</li> </ul>		
11.	<p><b><u>Cyfleoedd cyllid allanol, gan gynnwys statws Sefydliad Ymchwil Annibynnol (IRO)</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cyflwynodd</b> Scott Lloyd i'r Comisiynwyr ganlyniad ei archwiliad diweddar o staff. Mewn ymateb i'r cwestiwn, "Pe bai gennym grant o £100,000 i'w wario ar brosiect a fyddai'n helpu'r Comisiwn Brenhinol, ar beth y dylem ni ei wario yn eich barn chi?", daeth tair thema gyffredinol i'r amlwg: digido, darganfod a bylchau mewn gwybodaeth.</li> <li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr eu brwdfrydedd dros lawer o'r prosiectau a awgrymwyd, a <b>chytunasant</b> â'r camau nesaf ymlaen a nodwyd: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Sefydlu'r meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylai prosiect gael ei gyllido o'n cyllideb graidd neu a oes angen cyllid allanol, a sut i flaenoriaethu prosiectau posibl.</li> <li>○ Llunio ffurflenni newydd ar gyfer cynigion prosiect sydd wedi'u cysylltu â Dangosyddion Perfformiad Allweddol, ac sy'n cynnwys ymrwymadau hanfodol o ran amser staff (TG, Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Archif) a gwybodaeth ariannol dros dro.</li> <li>○ Codi ymwybyddiaeth ymhlith y staff o brosiectau wedi'u cyllido'n allan posibl.</li> <li>○ Ni ddylem geisio cyllid er mwyn ceisio cyllid; rhaid iddo fod yn strategol.</li> </ul> </li> <li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr nad yw'r Comisiwn Brenhinol yn bodloni'r meini prawf cymhwyster ar gyfer statws IRO ar ei ben ei hun, ond byddai'n awyddus i drafod y posibilrwydd o gael statws ar y cyd gydag Amgueddfa Cymru neu gorff arall.</li> <li>• <b>Diolchodd</b> y Comisiynwyr i Scott Lloyd am ei gyflwyniad.</li> </ul>	<p>Sefydlu meini prawf a ffurflenni newydd ar gyfer cynigion prosiect</p> <p>Codi ymwybyddiaeth</p> <p>Cysylltu ag MR i symud ymlaen gyda hyn</p>	<p>OT</p> <p>SJL</p> <p>SJL</p>
12.	<p><b>Statws elusennol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Nododd</b> y Comisiynwyr gynnwys yr adroddiad ar Statws Elusennol.</li> </ul>		
13.	<p><b>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol</b> 19<sup>eg</sup> – 21<sup>ain</sup> Hydref 2016</p>		

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Cofnodion Cyfarfod Busnes y Comisiynwyr 20 Ebrill 2016

	26 <sup>ain</sup> – 27 <sup>ain</sup> Ebrill 2017		
14.	<b>Unrhyw fater arall</b> Dim.		
15.	<p><b>Nodiadau briffio i'r staff</b></p> <p><b>Cytunodd</b> y Comisiynwyr y câi'r canlynol eu cyflwyno gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn y cinio i'r Staff Cyfan:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canmol y staff am eu gwaith caled eleni</li> <li>• Cyflwyniad Scott ar gyllid</li> <li>• Enwau lleoedd hanesyddol Cymru</li> <li>• Ffocysu a chyfeiriad strategol</li> <li>• Is-bwyllgorau</li> <li>• Statws elusennol</li> </ul>		
	<p>Diolchodd y Cadeirydd i Henry Owen-John a Jonathan Hudson am eu gwaith hanfodol fel Comisiynwyr.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r ymwelwyr a dywedodd y byddai'n mawr werthfawrogi derbyn sylwadau ganddynt am unrhyw agwedd ar y cyfarfod.</p>		